Y Comisiwn Etholiadol

# Cais am ddatganiad o ddiddordeb

## ar gyfer

## Y Comisiwn Etholiadol

**Cyf y Comisiwn Etholiadol:**

## Datganiad o ddiddordeb – Gwella fframwaith addysg ddemocrataidd

Gweithdrefn: Gweithdrefn Agored (Deddf Caffael 2023)

Math o Fframwaith: Cytundeb fframwaith aml-gyflenwr

Cyfnod y Cytundeb: 3 blynedd, gyda'r posibilrwydd o estyniad o 2 flynedd

Cyfanswm gwerth amcangyfrifedig: tua £600,000

Mae'r Awdurdod angen gwybodaeth am eich galluogrwydd a'ch capasiti i ddarparu'r gwasanaethau a restrir isod.

Bydd unrhyw gyflenwyr nad ydynt yn ymateb i'r Datganiad o Ddiddordeb hwn o fewn yr amserlenni a nodwyd yn eithrio'u hunain o'r broses gwneud cais ar gyfer y prosiect hwn.

Rhowch wybod os oes gennych ddiddordeb gwneud cais am y cyfle hwn.

**Sylwer: Yn ystod y cam hwn, nid oes angen ymateb ffurfiol i'r tendr, naill ai fel cais prosiect neu gyflwyniad o bris. I fynegi diddordeb, mae'n rhaid i gyflenwyr:**
**1. Cofrestru ar Borth Caffael In-Tend y Comisiwn Etholiadol.**

**2. Anfonwch e-bost i procurement@electoralcommission.org.uk gyda chadarnhad o ddiddordeb a'r lot(iau) maent yn bwriadu cynnig amdano/amdanynt. Gwnewch yn siŵr bod pwnc yr e-bost yn darllen fel a ganlyn: WP080 – Ymateb i Ddatganiad o Ddiddordeb ar gyfer Gwella Addysg Ddemocrataidd - Amserlen Gaffael Arfaethedig**

Dyddiad dychwelyd ar gyfer Datganiad o Ddiddordeb: 20/06/2025

Gwahoddiad i Dendro wedi'i anfon: 27/06/2025

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau: 17/07/2025

Contractau wedi'u gwobrwyo a phob cynigydd wedi'u hysbysu: 14/08/2025

Noder mai amserlen dros dro yw hon ac rydym yn cadw'r hawl i wyro oddi wrthi.

**Y Comisiwn Etholiadol ac addysg ddemocrataidd**

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff cyhoeddus annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb.

Mae'r tîm Addysg a Phartneriaeth Pleidleiswyr yn darparu gwybodaeth ddiddorol, gywir a diduedd am ddemocratiaeth, etholiadau a phleidleisio fel y gall pleidleiswyr cymwys a phleidleiswyr yn y dyfodol fwrw eu pleidleisiau'n hyderus.

Nod ein gwaith addysg yw hyrwyddo mwy o gysondeb mewn addysg ddemocrataidd, cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddemocratiaeth ac etholiadau ymhlith pobl ifanc, a chynyddu dealltwriaeth addysgwyr o'r pwnc hwn a'u hyder i'w gyflwyno.

Tynnodd ein hadroddiad ymchwil diweddar, Lleisiau Ifanc ar Ddemocratiaeth, sylw at y ffaith nad oes gan bobl ifanc y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i fod yn hyderus ynghylch gwleidyddiaeth a phleidleisio ar hyn o bryd. Llai na thraean sy'n gwybod llawer am yr hyn y mae llywodraeth y DU yn ei wneud, a dim ond hanner y rhai sydd heb bleidleisio eto sy'n teimlo'n hyderus ynghylch y broses. Mae angen clir am fwy o addysg ddemocrataidd mewn ysgolion a cholegau i gefnogi pobl ifanc i ddod yn bleidleiswyr gwybodus ac ymgysylltiedig: dim ond traean o blant oedran ysgol a ddywedodd eu bod wedi dysgu am wleidyddiaeth yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond dywedodd bron i dri chwarter wrthym eu bod eisiau mwy o gyfleoedd i wneud hynny.

Rydym yn bresennol yn canolbwyntio ar y mentrau canlynol i'n helpu i gyflawni ein hamcanion:

- Rhwydwaith Llais Ieuenctid: mae ein rhwydwaith ymgysylltu â phobl ifanc yn cynnwys 60 o bobl ifanc yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r grŵp hwn o bobl ifanc yn cyfrannu at ein gwaith addysg ac yn datblygu adnoddau i gefnogi eu cyfoedion i ddysgu am ddemocratiaeth.
- Adnoddau addysg: rydym wedi datblygu adnoddau - gan gynnwys cynllun gwaith ar gyfer ysgolion, a gweithgareddau ar gyfer grwpiau ieuenctid - gyda'r nod o gefnogi pobl ifanc ledled y DU i ddysgu am ddemocratiaeth ac etholiadau
- Wythnos Croeso i Dy Bleidlais: bob blwyddyn rydym yn cynnal Wythnos Croeso i Dy Bleidlais, sy'n annog pobl ifanc ac addysgwyr i ymgysylltu ag addysg ddemocrataidd ac i ddechrau'r sgwrs am yr etholiadau sydd i ddod.

Rydym nawr yn edrych i weithio gyda sefydliadau cymdeithas sifil i ddatblygu a gwerthuso prosiectau a fydd yn cynyddu addysg ddemocrataidd mewn ysgolion, colegau a lleoliadau ieuenctid.

## Pwy sy'n gallu gwneud cais

- Mae'n rhaid i sefydliadau fod yn sefydliadau di-elw, megis, ond heb fod yn gyfyngedig i, elusennau, Sefydliad Corfforedig Elusennol, Cwmnïau Buddiannau Cymunedol neu gwmnïau cyfyngedig trwy warant.

- Mae didueddrwydd wrth wraidd rôl y Comisiwn Etholiadol: rhaid i sefydliadau ddangos dealltwriaeth glir o ddidueddrwydd, a sut maen nhw'n bwriadu ei gynnal wrth gyflawni eu menter.

## Manyleb

Mae'r Gwahoddiad i Dendro hwn ar gyfer sefydliadau cymdeithas sifil sy'n canolbwyntio ar addysg ac ymgysylltu â phobl ifanc i wella addysg ddemocrataidd mewn ysgolion, colegau, prifysgolion a grwpiau ieuenctid. Bydd sefydliadau llwyddiannus yn ymuno â rhwydwaith o bartneriaid a fydd yn cydweithio i wella addysg ddemocrataidd yn y lleoliadau hyn.

Mae cwmpas y gwaith hwn yn cynnwys:

- darparu canllawiau a thystiolaeth ategol ar yr hyn sy'n gweithio'n dda mewn addysg ddemocrataidd
- gweithio gydag ysgolion a cholegau i gyd-ddatblygu fframwaith sy'n arddangos arfer gorau ac yn cyfeirio at brosiectau a chynlluniau gwaith addysg ddemocrataidd sydd o ansawdd da, yn ddiduedd ac yn effeithiol
- datblygu adnoddau addysg, gan gynnwys cynlluniau gwaith, yn unol â chwricwla perthnasol
- creu a chyflwyno hyfforddiant i athrawon ac ymarferwyr ieuenctid
- cefnogi lledaenu'r gwaith hwn i ysgolion, colegau, prifysgolion a grwpiau ieuenctid

Mae'r tendr hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarpariaeth addysg yn Lloegr, ond byddwn yn derbyn ceisiadau sy'n darparu cefnogaeth wedi'i thargedu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Oherwydd natur newidiol y sectorau addysg ac amserlenni'r tendr hwn, gellir diffinio prosiectau wrth i'r bartneriaeth fynd rhagddi. Byddwn yn cydweithio â sefydliadau llwyddiannus i bennu amserlen gyflawni a diffinio allbynnau a chanlyniadau ar ddechrau pob blwyddyn o'r prosiect hwn. Mae'n ofynnol gennym bod sefydliadau llwyddiannus yn gallu **peilota adnoddau neu brosiectau yn nhymor cyntaf y flwyddyn academaidd nesaf** (Medi-Rhagfyr 2025).

## Gwella Strwythur Lotiau Addysg Ddemocrataidd

Diben y tendr hwn yw dyfarnu contractau i sefydliadau sydd â'r gallu, yr adnoddau a'r arbenigedd i gyflawni un neu fwy o'r lotiau canlynol dros y tair i bum mlynedd nesaf. Gall sefydliadau wneud cais am un lot neu fwy yn eu cais.

Gyda'i gilydd, bydd sefydliadau llwyddiannus yn cydweithio â phartneriaid addysg eraill sydd wedi'u comisiynu drwy gydol cyfnod y prosiect hwn i:

- darparu arbenigedd ar yr hyn sy'n gweithio'n dda mewn addysg ddemocrataidd a chyfrannu at ddatblygu fframwaith canlyniadau addysg ddemocrataidd i'w ddefnyddio ar draws y sector
- defnyddio perthnasoedd cryf gydag ysgolion, colegau, prifysgolion a grwpiau ieuenctid i ledaenu adnoddau'n llwyddiannus
- ehangu cyrhaeddiad Wythnos Croeso i Dy Bleidlais drwy gefnogi lleoliadau addysg ac ieuenctid ychwanegol i gymryd rhan a chynyddu'r defnydd o adnoddau

**Lot 1: Rheoli darpariaeth gwasanaeth - galw a chydlynu**

Arwain y gwaith o gynnull partneriaid addysg ac academyddion yn y sector addysg ddemocrataidd, ynghyd â'r Comisiwn Etholiadol.

**Lot 2: Prosiectau addysg, cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi ar gyfer ysgolion uwchradd ac ôl-16**

Yn unol â'r cwricwlwm dinasyddiaeth a blaenoriaethau cyfredol ysgolion a cholegau, datblygu adnoddau sy'n cryfhau gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'n system ddemocrataidd.

**Lot 3: Hyfforddiant athrawon a grwpiau ieuenctid**

Defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd pwnc i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant yn unol â'r canllawiau DPP diweddaraf ar gyfer athrawon ac ymarferwyr ieuenctid. Rydym yn awyddus i archwilio dulliau dysgu e-ddysgu a dulliau dysgu traddodiadol.

**Lot 4: Camwybodaeth a thwyllwybodaeth**

Datblygu, cyflwyno a gwerthuso prosiectau sy'n cefnogi pobl ifanc i adnabod, deall a dod yn wydn i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth am etholiadau a phleidleisio.

**Lot 5: Addysg gynradd**

Datblygu, cyflawni a gwerthuso prosiectau sy'n cynyddu ac yn gwella addysg ddemocrataidd mewn ysgolion cynradd.

**Lot 6: Darpariaeth AAAA (Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd)**

Datblygu, cyflwyno a gwerthuso darpariaeth addysg ddemocrataidd ar gyfer ysgolion a dysgwyr AAAA.

**Lot 7: Darpariaeth ar gyfer Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban**

Ehangu ein darpariaeth addysg bresennol naill ai yn yr Alban, Gogledd Iwerddon neu Gymru, gan ganolbwyntio ar fapio'r ddarpariaeth, ymgysylltu â phartneriaid a lledaenu adnoddau.

## Hawl i ganslo neu amrywio datganiad o ddiddordeb

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cadw'r hawl i:

- Canslo rhan neu'r cyfan o'r Datganiad o Ddiddordeb hwn ar unrhyw adeg ac yn ystod unrhyw gam; a
- Diwygio, gloywi, ychwanegu at neu dynnu'n ôl pob rhan neu unrhyw ran o'r Datganiad o Ddiddordeb
- Peidio â bwrw ymlaen ag unrhyw dendr na dyfarniad
- Amrywio cwmpas y prosiect neu'r fframwaith yn ôl ei ddisgresiwn

## Camau nesaf

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn yr ymarfer caffael hwn ar gyfer y tendr hwn, cofrestrwch eich diddordeb drwy ddilyn y cyfarwyddiadau isod:

**1. Cofrestru ar y porth**
Cyhoeddir y gwahoddiad disgwyliedig i dendro ar Borth Caffael y Comisiwn Etholiadol, cofrestrwch fel cyflenwr drwy ddilyn y ddolen hon https://in-tendhost.co.uk/electoralcommission

**2. Cysylltu â'r tîm caffael, cofrestru diddordeb**
Ar ôl i chi gofrestru ar y porth, cysylltwch â ni gan nodi pa lot/lotiau rydych chi'n bwriadu bidio amdano/amdanynt.

## Manylion cyswllt

Cyfeiriad e-bost: procurement@electoralcommission.org.uk